

# Canllaw cyflym ar gyfer ysgrifennu datganiadau i'r wasg

Mae datganiad i'r wasg sydd yn amserol ac yn berthnasol yn ffordd gyflym a chost effeithiol o godi ymwybyddiaeth am eich gweithgareddau.

Ond mae'n bwysig cofio nad oes rhaid i newyddiadurwyr ddefnyddio eich datganiadau i'r wasg. Gallant eu dileu heb hyd yn oed eu darllen! Yr allwedd i gael newyddiadurwyr i gynnwys eich stori yw gwneud eich datganiad i'r wasg yn fyr ac yn hawdd i'w ddarllen.

## Yr arddull

Defnyddiwch cyn lleied o eiriau â phosibl i gyfleu eich neges.

Ceisiwch gadw pob paragraff yn un neu ddwy frawddeg o hyd gan fod hyn yn gwneud yr holl beth yn fwy darllenadwy.

Weithiau bydd angen i chi restru cyfres o bwyntiau e.e. gweithgareddau sy'n digwydd fel rhan o brosiect newydd. Mae pwyntiau bwled (rhwng tri a phump yn ddelfrydol) yn ffordd dda o wneud hyn.

## Y strwythur

### Sut i ysgrifennu pennawd effeithiol

- Gwnewch ef yn fachog i ddenu sylw pobl
- Crynhowch eich cyflwyniad
- Rhowch gynnig ar gyflythrennu (pan mae geiriau'n dechrau gyda'r un llythyren neu sain e.e. gwych / gwael)
- Defnyddiwch ystadegau neu ddata

### Defnyddiwch y pyramid gwrthdro

Yn syml, mae hyn yn golygu rhoi'r pwyntiau pwysicaf, mwyaf diddorol gyntaf. Y rhesymeg yw ei fod yn haws i olygyddion a newyddiadurwyr dorri eich stori i lawr.

Ceisiwch ateb cymaint o'r cwestiynau canlynol yn y paragraff cyntaf: Pwy? Beth? Ble? Pryd? Pam?

### Ychwanegwch ddyfyniad

Gall dyfyniadau wedi eu hysgrifennu'n dda roi elfen ddynol i'ch stori. Ond mae yna rai pethau i'w cofio:

1. Mae'n rhaid i ddyfyniadau deimlo'n real. Darllenwch eich dyfyniad yn uchel, a yw'n swnio'n ddilys?
2. Peidiwch â bod wrth eich bodd! Peidiwch byth a dechrau dyfyniad gyda "Rydym wrth ein bodd" – mae'r ymadrodd yn cael ei orddefnyddio ac yn blaen iawn.

3. Dywedwch stori. Dywedwch wrth y darllynydd pam y mae'r gwaith y maent yn ei wneud yn bwysig, ac ategwch hyn gydag ystadegau
4. Dylech gynnwys galwad i weithredu. Beth ydych eisiau i'r darllynydd ei wneud?

#### **Pethau sylfaenol i'w cofio**

- **Ychwanegwch y dyddiad**
- **Ychwanegwch eich logo** os oes un gennych
- **Gorffennwch eich stori bob amser gyda'r gair DIWEDD mewn print bras**
- **Ychwanegwch fanylion cyswllt**, yn cynnwys rhif ffôn symudol
- **Ychwanegwch lun neu ddau**. Rheol gyffredinol wrth ddewis lluniau ar gyfer stori yw rhoi blaenoriaeth (heb fod mewn unrhyw drefn benodol) i weithredu, emosiwn, enwogion, plant (gyda chaniatâd rhieni) ac anifeiliaid.
- **Ychwanegwch capsiynau i'r lluniau**. Dewiswch eich llun a'ch capsiwn yn ofalus. Os oes angen mwy nag un llinell o esboniad ar lun, nid yw'n ddigon cryf.
- **Ychwanegwch Nodiadau i Olygyddion**. Dyma ble y gallwch gynnwys gwybodaeth gefndirol nad yw'n rhan o'r stori, ond yn ddefnyddiol ar yr un pryd. Gallech ychwanegu eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yma.